Y Pwyllgor Llywodraeth Leol
a Thai
—
Local Government
and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

13 Hydref 2022

Annwyl gydweithwyr,

**Digartrefedd**

Gwnaethom ysgrifennu atoch ym mis Ionawr eleni i ofyn am eich barn ar y sefyllfa digartrefedd ar y pryd ac awgrymiadau ar faterion penodol y gallem ganolbwyntio arnynt yn ein gwaith ar y gweill ar ddigartrefedd a chysgu ar y stryd.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi bod ar ymweliadau yn ymwneud â'r gwaith hwn ac wedi cytuno i ddechrau gwaith pellach yn nhymor yr hydref. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl ar gyfer ei waith ar 12 Hydref, fel yr amlinellir isod.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymgynghoriad**

Rydym yn ymwybodol bod y sefyllfa wedi newid ers i ni ysgrifennu atoch chi tro diwethaf yn y gwanwyn, a hoffem ofyn i chi rannu eich barn ar y cylch gorchwyl, yn ogystal ag ar y sefyllfa bresennol.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i edrych yn fanwl ar:

- Cyflenwad, addasrwydd ac ansawdd y llety dros dro sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gartrefu pobl sy'n ddigartref a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt;
- Yr effaith y caiff byw mewn llety dros dro ei chael ar unigolion a theuluoedd;
- Effaith y galw parhaus am lety dros dro ar awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth, eu partneriaid a'u cymunedau;

- Opsiynau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a phriodol yn y tymor byr i ganolig, er mwyn lleihau'r defnydd o lety dros dro;
- Cynnydd o ran gweithredu Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026, ac yn arbennig y symud tuag at ddull ailgartrefu cyflym.

**Cyflwyno tystiolaeth**

Os hoffech ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, e-bostiwch gopi electronig o'ch tystiolaeth i SeneddTai@senedd.cymru neu anfonwch drwy'r post at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Senedd Cymru, Caerdydd, CF99 1SN.

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno'n ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno ynddi, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau a'r Hysbysiad Preifatrwydd sy'n ymwneud â chyfrannu at waith pwyllgorau'r Senedd.

**Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**

Fel rheol byddwn yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddienw. Os ydych wedi ymateb yn eich rôl broffesiynol, bydd y fersiwn o'ch ymateb a gyhoeddir yn cynnwys eich enw, teitl eich swydd/rôl os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn dydd Gwener 11 Tachwedd 2022. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Manon George, Clerc ar 0300 200 6219.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

John

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.